

Cyflwyniad

Mae adrodd stori yn cael effaith mawr ar blant gan ei fod yn ei weld yn hwylus, doniol, cymhellol a'n ddifyrrus, mae hyn yn hybu plant adeiladu profiadau positif wrth ystyried iaith cyntaf ac ail iaith. Mae adrodd storïau yn helpu athrawon ddysgu geirfa newydd, brawddegau newydd, adeiledd brawddegau a datblygu cynefindra plant â chyd-destunau newydd. Wrth wrando ar storïau mae plant hefyd yn dysgu sut i ddilyn rhythm, acenau a atalnodiadau. Mae dysgu iaith drwy wrando ar storïau yn gosod sylfaen ar gyfer datblygiadau drwy ddysgu strwythurau iaith sylfaenol, geirfa a sgiliau dysgu iaith (Ellis a Brewster, 2002 a ddyfynnwyd gan Isik, 2016). Mae adrodd stori'n ddigidol yn weithgaredd manwl sy'n ysgogi, annog ac yn gwerthfawrogi'r gweithgareddau mae dysgwyr yn gweithio'n agos â thu allan i'r ysgol. Mae'n sicrhau bod y sgiliau maent yn defnyddio o safon uchel ac yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr. Mae'r gweithrediadau o dechnoleg yn broses dysgu-addysgu sy'n cynrychioli dulliau gwerthfawr a hybu'r profiadau dysgu ni fyddai'n gyrraeddadwy heb dechnoleg (Moradi a Chen, 2019).

Prif Gorff

Gofyn Cwestiynnau

Un o'r agweddau rydym yn gallu gweld yn ystod y fideos yw holi cwestiynnau i'r gynulleidfa. Nodwyd mewn erthygl bod cwestiynnu disgyblion ar beth maent yn ei glywed wrth wrando ar y llyfr yn ddefnyddiol gan ei fod yn ffurff sy'n cael ei ddefnyddio'n aml i brofi dealltwriaeth. Maent yn dweud bod cwestiynnau'n cael ei ofyn am ddwy rheswm. Yn gyntaf oherwydd bod lefel o ddealltwriaethau gwahanol gan bob disgybl sy'n amhosib i arsylwsi, mae athrawon yn gofyn cwestiynnau i sicrhau bod y plant yn deall beth sydd yn cael ei ddarllen ac hefyd yn rhoi mesuriad iddynt o'u dealltwriaethau. Yn ail mae cwestiynnu yn cael ei weld fel cymorth i ddysgu gan ei fod yn galluogi'r disgyblion feddwl am yr hyn maent wedi ei ddarllen. Yn ôl yr erthygl mae gofyn cwestiynnau yn holl bwysig i sicrhau bod y disgyblion yn deall geiriau penodol, y neges mae'r stori'n cyfleu ac i wneud rhagfynegiadau o beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf yn y llyfr (Beck a McKeown, 1981).

O fewn papur sy'n trafod cwestiynu plalnt yn y dosbarth mae'n nodi ei fod yn cyfoethogi dysgu drwy ddatblygu sgiliau meddwl beirniadol, atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion, galluogi gywiro camddealltwriaethau disgyblion, cyfle i gynnig adborth a bywiogi trafodaethau dosbarth. Mae cwestiynnu'n cael ei ddefnyddio fel cymorth i ddysgu lle mae'r athrawon yn rheoli a uniongyrchu dysgu, profi dealltwriaethau a amlygu manau sydd angen gwella. Hefyd nodwyd bod gofyn cwestiynnau yn cyfoethogi dysgu a cynyddu perfformiad disgyblion. Mae gofyn cwestiynnau wrth adrodd stori'n gorfodi plant i feddwl am yr hyn maent yn ei ddarllen ac yn cynnig dealltwriaeth mwy dwfn i'r stori a'i cymeriadau (Caram a Davis, 2012).

Mae gofyn cwestiynnau i blant ifanc yn datblygu ei sgiliau iaith mewn ffordd unigryw gan ei fod yn gorfodi ateb mwy cyflym sy'n dangos ei dealltwriaeth. Nodwyd mewn

erthygl bod gofyn cwestiynau'n galluogi plant gofio gwybodaeth yn well boed ei fod ei ateb yn gywir neu anghywir, ar y llaw arall os nad yw plant yn cael y cyfle i ateb cwestiynau maent yn colli cymhelliant a'r awch i ddysgu gan nad yw ei gwybodaeth yn cael ei herio a'i gwestiynu. Yn yr erthygl maent yn nodi dyfyniad gan Bruner (1971) a ddywedwyd un o'r ffurf fwyaf hanfodol ar gyfer datblygiadau iaith yw'r sgysiaid rhwng y bobl fwy profiadol a'r llai profiadol, sy'n golygu bod iaith plentyn yn datblygu drwy sgwrsio a gwrandio ar oedolyn. Maent yn dysgu sut i ofyn a ateb cwestiynau drwy ailadroddiadau (Easterbrooks, 2021). Mae adrodd stori'n ddigidol yn atgyfnerthu iaith drwy arddangos gwrthrychau sy'n cynrychioli geiriau ac yn darparu cyfleoedd i blant ddefnyddio geirfa mwy eang. Yn ôl ymchwil roedd plant a wnaeth glywed stori o fwrdd gwyn rhyngweithiol wedi cymryd llawer mwy o ddiddordeb i gymharu a gwrandio stori o lyfr. Y rheswm am hyn yn ôl yr erthygl yw fod plant yn dysgu'n well yn weledol ac mae lluniau mawr ar fwrdd gwyn yn mwy deniadol (Whitehurst et al, 2018). Mae darllen stori digidol hefyd yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion ofyn cwestiynau gan ei fod yn cymryd llawer o ddiddordeb yn sut mae technoleg yn gweithio.

Mae cwestiynnu plant yn ei gorfodi i wrando mwy ar yr hyn maent yn darllen a hefyd cwestiynnu'u hun am yr hyn maent yn clywed. Yn ôl un erthygl mae'n bwysig i athrawon rhoi rhyddid i blant ateb cwestiwn yn ffordd ei hunan a'i adael i fynegi ei barn, gall wneud hyn drwy wrando'n astud ar ei atebion a chynnig adborth positif hyd yn oed os nad yw'r ateb yn gywir (Pelzom, 2019).

Darllen yn uchel

Mae darllen yn uchel yn cynnwys grwp mawr o ddisgyblion gyda'i gilydd yn gwrandio, meddwl, siarad a rhannu meddyliau ar y llyfr. Mae'n rhoi cyfle i ddisgyblion wrando a gwylio siaradwr rhugl yn gweithredu. Mae gwrandio ar berson yn adrodd stori yn fodd i ddisgyblion mwynhau llyfrau ar lawer o lefelau gwahanol ar draws amryw o genres (The Daily Alphabet, 2024). Mae ymchwilwyr yn nodi mai'r agwedd mwyaf gwerthfawr yn ystod gweithgareddau darllen uchel yw ei fod yn cynnig profiad heb gyd-destun ieithyddol, sy'n gofyn i ddisgyblion wneud synnwyr o'r syniadau maent yn meddwl wrth wrando ar y stori (Beck a McKeown, 2001). Yn ôl un ymchwil mae darllen yn uchel â chyswllt i ofyn cwestiynau gan ei fod yn gallu gofyn cwestiynau megus pwy, pryd, ble ac yna trafod atebion posibl. Mae darllen yn uchel yn annog defnydd gofyn cwestiynau a mae'r cwestiynau hyn yn gallu hybu disgyblion i gymryd rheolaeth dros addysg eu hunain. Gall hyn annog plant ifanc gymryd mwy o ddiddordeb wrth ddarllen tu allan i'r dosbarth a byddai hyn yn ddefnyddiol i ddatblygu iaith gan eu bod yn ehangu geirfa (Senawati a Suwastini, 2021).

Mae darllen yn uchel yn cael effaith awr ar ehangu geirfa plant ifanc. O fewn ymchwil gan Anderson a Wilson (1988) nodwyd bod plant yn darllen tua 650,000 o eiriau y flwyddyn â darllenwyr cryf yn darllen miliynau o eiriau'r flwyddyn, mae hyn yn cael effaith positif ar ei geirfa. Mewn ambell achos nad yw plant yn cael y cyfle i ddarllen adref felly mae darllen uchel o fewn ysgolion yn cael dylanwad enfawr ar ei datblygiadau iaith. Nodwyd ei fod yn hynod bwysig bod pob un plentyn yn cael y cyfle i wrando ar oedolyn yn darllen yn uchel gan ei fod yn cynnig datblygiadau iaith i blant o lefelau gallu gwahanol. Hefyd roedd gan ddisgyblion a wnaeth glywed darllen dealltwriaeth gwell o dermau newydd a mwy o lwyddiant wrth ddefnyddio geiriau gwahanol o'r iaith gyffredin. Nodwyd bod clywed darllen uchel yn lleihau'r risg o

ddatblygu geirfa gwael a datblygiad gwael yn ysgol. Yng nghasgliad yr erthygl nodwyd bod plant yn defnyddio geirfa gwell, darllen a deall yn well a datblygu'r gallu i sgwrsio'n rhugl o achos darllen uchel (Batini et al, 2020).

Mae darllen yn uchel yn hybu datblygiadau iaith ddigidol gan ei fod yn cynnig cyfleoedd iddynt rhyngweithio â thechnoleg drwy wyllo oedolyn yn gweithredu â thechnoleg. Mae darllen uchel yn rhoi cyfle i blant rhyngweithio â oedolyn gan ei fod yn gallu arsylwi beth mae'r oedolyn yn gwneud wrth ddarllen megis defnyddio'r bysellfwrdd a newid sleid i gyrraedd y tudalen nesaf. Mae'r datblygiadau iaith ddigidol yn hanfodol wrth ddysgu gan fod mwy o dechnoleg yn cael ei ddefnyddio ym mywyd pob dydd. Mae iaith ddigidol yn paratoi disgyblion ar gyfer perfformiadau effeithiol ar draws y cwricwlwm ac ym mhob agwedd o'i bywyd lle mae creu ac arddangos yng ngweithgareddau sy'n angenrheidiol yn y byd gwaith (Churchill et al, 2008).

Un strategaeth mae ymchwilwyr yn awgrymu i ddatblygu iaith plant ifanc yw ei fod yn cael y cyfle i ddarllen yn uchel. Trwy wrando ar oedolyn yn darllen yn uchel gall hyn ddatblygu hyder disgybl wrth iddo geisio darllen yn uchel hefyd. Trwy ddatblygu'r hyder yma mae'n galluogi plant darllen yn fwy rhugl ac yn ôl un erthygl mae darllen yn dda yn arwain tuag at ddatblygiadau iaith arbennig. Mae gwrando ar ddarllen uchel yn cynnig mewnwleddiad allweddol i ddisgyblion ddeall ac adnabod sut i siarad yn rhugl (Sally Gibson, 2008).

Hwyluso darllen drwy ddefnyddio strategaethau gwahanol

Yn y fideo rydym yn gweld y defnydd o wisg ffansi a phrops yn cael ei ddefnyddio. Yn ôl erthygl mae defnyddio props pan yn darllen i blant yn ffordd effeithiol i wella ymgysylltiad, dealltwriaethau a datblygiadau ieithyddol. Nodwyd bod props yn gwneud stori mwy realistig trwy ddarparu profiadau gweledol sy'n creu naratif mwy cofiadwy a perthnasol. Esiaml arall o ddefnyddio propiau byddai'r defnydd o bypedau, teganau, neu wrthrychau sy'n adlewyrchu'r hyn sydd yn y stori. Gall hyn gynnig cymorth ieithyddol a cefnogi eu dealltwriaethau. Mae props hefyd yn creu cyfleoedd ar gyfer darllen rhyngweithiol, lle mae plant yn gallu actio rhannau o'r stori ac yn eu gwneud yn rhan bwysig o'r broses adrodd stori. Mae'r rhyngweithiau'n meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r strwythurau naratif, emosiynau cymeriadau, datblygiadau'r cynllun, sy'n rhannau hanfodol ar gyfer datblygiadau ieithyddol (Rao et al, 2016).

Mae Raising Children (2021) yn nodi mae darllen trwy ddefnyddio props a gwisg ffansi gyda phlant yn adeiladu sylfaen cryf i ddatblygu ehangfa geirfa, gan esbonio bod rhai geiriau o fewn llyfr yn ddieithr i blant er enghraifft y gair "hudlath" yn y fideos a ddangoswyd. O fewn yr un erthygl mae Stadler a Ward (2010) yn nodi mae props yn cael effaith positif ar adeiladu iaith ddisgrifiadol a sgiliau llythrennedd plant ifanc. Mae defnyddio'r technegau yma hefyd yn cefnogi cyfathrebu plant a'i sgiliau gwrando gan ei fod yn hwyluso'r broses ddarllen. Mae gwisgoedd ffansi a phropiau'n aml yn dal sylw plant ifanc ac yn eu galluogi deimlo fel eu bod yn rhan o'r hyn sydd yn digwydd yn y stori (ECSDN, 2021).

Mae gwisgo lan wrth ddarllen llyfr i blant yn gwella'i phrofiadau darllen yn fawr drwy wella dealltwriaeth a canolbwyntiad wrth wrando. Wrth wisgo gwisg ffansi mae'n galluogi athrawon fod mwy creadigol wrth adrodd y stori sy'n cynnal diddordeb plant ifanc ac yn ei galluogi cysylltu'n well â'r stori sy'n cael ei adrodd. Pan mae oedolion yn gwisgo lan mae'n annog plant gymryd rhan yn chwarae rôl, sy'n meithrin dychmyg, empathi a meddwl beirniadol. Mae'r ffactorau yma i gyd yn gymorth enfawr wrth ddatblygu sgiliau iaith a llythrennedd yn ôl yr erthygl. Mae plant ifanc yn gallu dychmygu ei hun yn rhan o'r stori sydd yn ei helpu cynnal diddordeb a gwrando ar bopeth maent yn clywed (Neuman a Roskos, 1997).

Mae profiadau hwylus wrth ddarllen yn meithrin ymateb emosiynol positif i lyfrau sy'n gysylltiedig â gwell cadw o eiriau newydd a chysyniadau. Mae ymchwil yn dangos bod plant sy'n cael profiad pleserus o ddarllen yn fwy tebygol o ddatblygu geirfa mwy eang a sgiliau naratif mwy cryf oherwydd ei fod yn agored i ystod mwy eang o strwythurau ieithyddol a iaith ffugiol (Krashen, 2004). Pan yn gwneud profiadau darllen mwy hwylus mae plant â mwy o gymhellant i ddarganfod strwythurau ieithyddol, geiriau newydd a brawddegau cymhleth. Mae'r profiadau yma yn cefnogi plant i fod yn actif wrth wella caffaeliad iaith. Mae hyn yn ei galluogi i ddeall patrymau iaith a datblygu ymwybyddiaeth ffonolegol sy'n hanfodol ar gyfer darllen rhugl (Guthrie a Wigfield, 2000). Mae cymryd rhan yn darllen digidol hwylus yn gallu gwella llythrennedd amlfodd plant, sy'n cynnwys y gallu i ddehongli a arddangos iaith ar destun, gweledol a ffurf glywedol. Mae ymchwiliadau'n dangos pan mae amgylcheddau darllen digidol yn hwylus a rhyngweithiol mae plant yn dysgu i ddeall iaith mewn cyd-destunau gwahanol, sy'n gwella rhuglder digidol a hyblygrwydd (Korat a Shamir, 2007).

Rhestr Cyfeirnod

Batini, F., D'Autilia, B., Pera, E., Lucchetti, L. and Toti, G., 2020. Reading aloud and first language development: A systematic review. *Journal of Education and Training Studies*, 8(12), pp.49-68. Ar gael: <https://pdfs.semanticscholar.org/bd80/6f8e1e8a335defd2ec820bf9c2e87309cf49.pdf> (defnyddio 27 Hydref 2024)

Beck, I.L. and McKeown, M.G., 1981. Developing questions that promote comprehension: The story map. *Language Arts*, 58(8), pp.913-918. Ar gael: <https://publicationsncte.org/content/journals/10.58680/la198127964> (Defnyddio 26 hydref 2024)

Beck, I.L. and McKeown, M.G., 2001. Text talk: Capturing the benefits of read-aloud experiences for young children. *The reading teacher*, 55(1), pp.10-20. Ar gael: <https://www.jstor.org/stable/20205005> (Defnyddio 27 Hydref 2024)

Caram, C.A. and Davis, P.B., 2005. Inviting student engagement with questioning. *Kappa Delta Pi Record*, 42(1), pp.19-23. Ar gael: <https://www.tandfonline.com/doi/pdf/10.1080/00228958.2005.10532080> (Defnyddio 26 hydref 2024)

Churchill, N., Ping, L.C., Oakley, G. and Churchill, D., 2008. Digital storytelling and digital literacy learning. *Readings in Education and Technology: Proceedings of ICICTE*, pp.418-430. AR gael: https://d1wgtxts1xzle7.cloudfront.net/97934099/churchill043-libre.pdf?1674961098=&response-content-disposition=inline%3B+filename%3DDigital_storytelling_and_digital_literac.pdf&Expires=1730035369&Signature=N7Yr5f6HDszFUHq3ooDbPqrzuAIELp4g1fDg0l9DzNbEhKU7d688brwi4PmavRaOGfgOy3jPku8u7~nfap17s1~~Aa-nQENh2pWRXNmKO02cRIQX2gf4Ct226MVyJV0n0d16craK3TJJuwW1om8gwTDtKDAfLY~ZNVu5VOX0TT6HZnFoISpMxTn5YH28HTJ89G9fA35VheEWyudsECb0Rn7ATAwEixrnK89vhW7sUw2DSrjEBToVSHW0VamViS-5tQruQOAM2qYtpb34WIDBjC270m3lwLuUHxmOArxc913nD2xbPII6H~ibWDXVOERJcvoal-Ur6l6Q-YoclDJ3PQ_&Key-Pair-Id=APKAJLOHF5GGSLRBV4ZA (Defnyddio 27 Hydref 2024)

Easterbrooks, S.R., 2020. *Language learning in children who are deaf and hard of hearing: Theory to classroom practice*. Oxford University Press, USA. Ar gael: <https://academic.oup.com/book/39173> (defnyddio 26 Hydref 2024)

ECSDN (2021) *Why time should always be made for storytelling*. Ar gael: <https://www.ecsdn.org/wp-content/uploads/2021/06/Rebecca-Stevens-Submission.pdf> (Defnyddio 27 Hydref 2024)

Gibson, S., 2008. Reading aloud: a useful learning tool?. *ELT journal*, 62(1), pp.29-36. Ar gael: <https://academic.oup.com/eltj/article-abstract/62/1/29/416435> (Defnyddio 27 Hydref 2024)

Isik, M.A., 2016. The impact of storytelling on young ages. *European Journal of Language and Literature*, 2(3), pp.115-118. Ar gael: https://revistia.com/files/articles/ejls_v2_i3_16/muhammed.pdf (Defnyddio 25 Hydref 2024)

Korat, O. and Shamir, A., 2007. Electronic books versus adult readers: Effects on children's emergent literacy as a function of social class. *Journal of Computer Assisted Learning*, 23(3), pp.248-259. Ar gael: <https://onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1111/j.1365-2729.2006.00213.x> (Defnyddio 27 Hydref 2024)

Krashen, S.D., 2004. The power of reading: Insights from the research. *Libraries Unlimited*. Ar gael: https://books.google.co.uk/books?hl=en&lr=&id=YH3DEAAAQBAJ&oi=fnd&pg=PR5&dq=Krahsen+2004&ots=VPqe8ElvaG&sig=vcFpvX2En_73-KuqaYRoJtpctaU&redir_esc=y#v=onepage&q=Krahsen%202004&f=false (Defnyddio 27 Hydref 2024)

Moradi, H. and Chen, H., 2019. Digital storytelling in language education. *Behavioral sciences*, 9(12), p.147. Ar gael: <https://www.mdpi.com/2076-328X/9/12/147> (defnyddio 26 Hydref 2024)

Neuman, S.B. and Roskos, K., 1997. Literacy knowledge in practice: Contexts of participation for young writers and readers. *Reading Research Quarterly*, 32(1), pp.10-32..Ar gael: https://ila.onlinelibrary.wiley.com/doi/epdf/10.1598/RRQ.32.1.2?saml_referrer (Defnyddio 27 hydref 2024)

Pelzom, K., 2019. The Importance of Questioning. *The Value of Research Culture in Bhutan*, p.50. Ar gael: <https://core.ac.uk/download/pdf/287038064.pdf#page=57> (defnyddio 26 Hydref 2024)

Rao, S.M., Newlin-Haus, E. and Ehrhardt, K., 2016. Repeated interactive read-aloud: Enhancing literacy using story props. *Childhood Education*, 92(3), pp.226-235. Ar gael: <https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/00094056.2016.1180900?scroll=top&needAccess=true#d1e122> (defnyddio 27 Hydref 2024)

Senawati, J., Suwastini, N.K.A., Jayantini, I.G.A.S.R., Adnyani, N.L.P.S. and Artini, N.N., 2021. The benefits of reading aloud for children: A review in EFL context. *IJEE (Indonesian Journal of English Education)*, 1(1), pp.80-107. Ar gael: <https://distantreader.org/stacks/journals/ijee/ijee-19880.pdf> (defnyddio 27 Hydref 2024)

The Daily Alphabet (2024) *What is read-aloud?*. Ar gael: <https://thedailyalphabet.com/what-is-a-read->

[aloud/#:~:text=Read%20alouds%20bring%20students%20together,levels%20across%20many%20different%20genres.](#) (Defnyddio 27 Hydref 2024)

Whitehurst, G.J., Falco, F.L., Lonigan, C.J., Fischel, J.E., DeBaryshe, B.D., Valdez-Menchaca, M.C. and Caulfield, M., 1988. Accelerating language development through picture book reading. *Developmental psychology*, 24(4), p.552. Ar gael: <https://psycnet.apa.org/buy/1989-02401-001> (Defnyddio 26 Hydref 2024)

Wigfield, A. and Guthrie, J.T., 2000. Engagement and motivation in reading. *Handbook of reading research*, 3(2000), p.406. Ar gael: https://books.google.co.uk/books?hl=en&lr=&id=2vhQAwAAQBAJ&oi=fnd&pg=PA403&dq=guthrie+and+wigfield&ots=IYf0vun86N&sig=4pPGUkbwz5uxkE_7lj55wDBnN70&redir_esc=y#v=onepage&q=guthrie%20and%20wigfield&f=false (Defnyddio 27 Hydref 2024)

1. Cysill ar-lein i wirio iaith
2. I confirm that i have not psented any AI generated text as my own work.